# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Springfield Dental / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 19 Mehefin 2018

Dyddiad cyhoeddi: 20 Medi 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.hiw.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78937-605-0



(h) Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .................................................................... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym.................................................................... 7

   Ansawdd profiad y claf ........................................................................8

   Darparu gofal diogel ac effeithiol .......................................................13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ...............................................20

4. Beth nesaf?..................................................................................... 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ....................................... 24

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ...........25

   Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol...........................................................26

   Atodiad C – Cynllun gwella............................... **Error! Bookmark not defined.**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Trwy ein gwaith ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Springfield Dental yn Springfield House, 5 Chester Road, Gresffordd, Wrecsam, LL12 8NA, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 19 Mehefin 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Springfield Dental yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff ymroddedig, cyfeillgar a phroffesiynol.

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y practis yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys offer priodol ac roeddent yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus.
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y lloriau yn y deintyddfeydd wedi'u selio ar yr ymylon
- Adolygu a diweddaru ffeil COSHH a'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd
- Cynnal archwiliad rheoli heintiau
- Cynnal archwiliadau clinigol amrywiol

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Springfield Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Wrecsam. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, un technegydd deintyddol clinigol, tair nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Springfield Dental yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff ymroddedig, cyfeillgar a phroffesiynol.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth a'u bod yn teimlo bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn ardderchog.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 36 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cwblhawyd y mwyafrif o'r holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn ardderchog. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae:

> *"Rwy'n gweithio dros y sir i gyd, ond fyddwn i ddim yn mynd i unman arall! Y deintydd gorau o bell ffordd"*
>
> *"Mae'r ddau ddeintydd a'r staff i gyd yn darparu gofal ardderchog ac yn eich trin ag urddas a pharch"*
>
> *"Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn, yn groesawgar, yn gwrtais ac yn gwneud yn siŵr fy mod i a'm teulu yn cael gofal cwsmer ardderchog"*
>
> *"Rwy'n hapus iawn â'r gofal deintyddol - maen nhw'n gwneud inni deimlo ein bod yn rhan o'r teulu"*
>
> *"Mae hwn yn bractis ardderchog sy'n gyfeillgar ac yn broffesiynol.  Mae'r staff i gyd wedi creu argraff fawr arnaf"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Cafwyd y sylwadau canlynol ganddynt:

> *"Gellid gwella mynediad i'r anabl"*
>
> *"Gallu trefnu apwyntiad ar y wefan"*

## Cadw'n iach

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol, a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posteri a thaflenni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle gallai cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw cleifion.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny), eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa / ardal aros a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Yn ogystal, roedd tystiolaeth bod cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi mewn sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym. O ganlyniad, roedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros hefyd. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion a gallai cleifion fynd â chopi adref gyda nhw.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd nifer fach o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg a dywedodd y cleifion hyn wrthym mai dim ond weithiau y gallent siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

Dywedodd yr holl gleifion di-Gymraeg wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd i'w glywed ar neges y peiriant ateb, ac roedd i'w weld ar wefan y practis ac yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac roeddent yn cael eu cadw'n dda. Roedd pob opsiwn triniaeth wedi'i gofnodi a gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cydraddoldeb penodol ar waith.

Mae'r practis ar ddau lawr. Mae'r llawr daear yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Gallai'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad i un ddeintyddfa ar y llawr daear, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gyfer triniaeth breifat a thriniaeth y GIG. Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn amlwg yn yr ardal aros. Fodd bynnag, nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel yr awdurdod cofrestru, nac yn cyfeirio at gynllun 'Gweithio i Wella'[1] y GIG chwaith. Tynnwyd sylw'r staff at hyn a gwnaethant ddiwygio'r hysbysiad ar unwaith yn ystod ein harolygiad. Roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system i gofnodi pryderon a chwynion ffurfiol. Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu nodi yng nghofnodion cleifion unigol. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod canolog o unrhyw bryderon anffurfiol er mwyn nodi unrhyw themâu. Cytunodd y practis i wneud hyn ar unwaith. Adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion ers i'r perchenogion presennol gymryd yr awenau yn 2004.

Gwnaethom drafod system y practis i gael adborth gan gleifion; mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa. Gall cleifion roi adborth neu wneud awgrymiadau'n ddienw gan ddefnyddio'r blwch sylwadau a ddarperir. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol cyfan a chaiff geirdaon eu cyhoeddi ar wefan y practis. Gwelsom ganlyniadau'r arolwg diweddaraf a oedd yn hynod o gadarnhaol a gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi defnyddio'r adborth a gweithredu arno er mwyn dylanwadu ar newidiadau yn y practis. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth yn yr ardal aros / derbynfa, er mwyn

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932

dangos i gleifion sy'n ymweld bod y practis yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a chleifion.

Roedd y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau, fel cynnal archwiliadau clinigol amrywiol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw rwystrau amlwg.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd pedwar toiled ar gael at ddefnydd cleifion a staff o'r naill ryw. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) yn cael eu cynnal yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân ar gael ym mhob rhan o'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion yr allanfeydd argyfwng i'w gweld yn glir ac roedd y poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn amlwg hefyd.

Gwelsom fod yr holl gemegion yn cael eu storio'n ddiogel ac nad oedd unrhyw gemegion yn cael eu gadael mewn ardaloedd cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o daflenni data yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac roedd asesiadau risg perthnasol ar gael. Fodd bynnag, nodwyd ei bod hi'n bryd adnewyddu'r rhain.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddidoli a'i osod yn y bagiau / cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu ffeil COSHH ac asesiadau risg cysylltiedig.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dadhalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[2]. Roedd y cyfleuster yn lân, yn drefnus ac yn cynnwys offer priodol.

Dangosodd y staff y broses ddadhalogi inni a gwelsom fod y gweithdrefnau a ddilynir i lanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn cyd-fynd â chanllawiau arfer gorau.

Dywedodd y practis wrthym fod archwiliadau rheoli heintiau dyddiol, wythnosol ac ad hoc yn cael eu cynnal ond nid oes unrhyw archwiliadau wedi cael eu cynnal fel mater o drefn. Gwnaethom argymell fod archwiliad rheoli heintiau'n cael ei gynnal cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio adnodd archwilio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05), sy'n gosod y safon ar gyfer arferion dadhalogi a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru. Cytunodd y practis i gynnal yr archwiliad rheoli heintiau ar unwaith.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd fod offerynnau deintyddol yn cael eu storio a'u symud yn unol â'r polisi dadhalogi cyfredol. Roedd yr holl offerynnau mewn bagiau ac roedd y dyddiad prosesu wedi'i nodi.

[2] Decontamination in primary care dental practices and community dental services

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal archwiliad rheoli heintiau llawn gan ddefnyddio adnodd archwilio WHTM 01-05.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau a oedd yn disgrifio sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion ac roedd y rhain wedi'u harddangos yn yr ardaloedd perthnasol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i ystyried gosod y cyffuriau brys mewn pecynnau sy'n gysylltiedig ag argyfyngau posibl.

Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i archwilio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cofnodion yn cael eu cadw o archwiliadau'r diffibriliwr symudol. Cawsom sicrwydd llafar fod y diffibriliwr yn cael ei archwilio fel rhan o'r un broses. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnodion o'r archwiliadau a chytunodd i wneud hynny.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) diweddaraf ac roedd un aelod o staff y practis wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried sicrhau bod mwy nag un aelod o staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf oherwydd maint y practis.

Gwnaethom argymell bod y practis yn adolygu ac yn diweddaru'r polisi dadebru gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol a'r canllawiau diweddaraf gan y Cyngor Dadebru (DU).

Gwelsom hefyd nad oedd holl staff y practis yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau. Gall unrhyw gyffuriau ysgogi adweithiau niweidiol annisgwyl neu annymunol. Mae'n bwysig canfod a chofnodi unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau yn gynnar er mwyn nodi unrhyw beryglon a mynd i'r afael â nhw. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybod am adweithiau niweidiol a amheuir i'r Asiantaeth

Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn.[3]

Gwnaethom argymell yn gryf bod y practis yn adolygu'r prosesau i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau ac yn sicrhau bod yr holl staff yn ei deall yn llawn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu a diweddaru'r polisi dadebru.

Dylai'r practis adolygu a gwella ei ddealltwriaeth o'r prosesau i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau.

## Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dywedodd y practis wrthym ei bod hi'n bryd i un aelod o staff adnewyddu ei hyfforddiant a chawsom sicrwydd llafar bod y sesiwn hyfforddi briodol wedi cael ei threfnu.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod gan bob aelod o staff yn y practis dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch cleifion. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus ac yn daclus. Gwelsom fod angen selio'r lloriau ym mhob deintyddfa ar yr ymylon.

[3] https://yellowcard.mhra.gov.uk/

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-x) yn ddiogel ac roedd y practis wedi cynnal archwiliadau trylwyr i sicrhau ansawdd y delweddau pelydr-x. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff clinigol sy'n ymwneud â gwaith pelydr-x wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio (IR(ME)R). Fodd bynnag, nodwyd bod angen i'r nyrsys deintyddol gwblhau hyfforddiant IR(ME)R fel rhan o'u gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus a chytunodd y practis i drefnu hyn.

Gwnaethom argymell i'r practis y dylid ad-drefnu'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd er mwyn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i wybodaeth a chytunodd y practis i wneud hynny.

Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i adolygu a diweddaru ei bolisi ar offer miniog er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod y lloriau ym mhob deintyddfa wedi'u selio ar yr ymylon

Sicrhau bod pob nyrs ddeintyddol yn cwblhau hyfforddiant IR(ME)R yn unol â'i gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Diweddaru a threfnu'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nid oedd gan y practis raglen ar waith i gynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol ffurfiol er mwyn nodi meysydd i'w gwella. Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen o archwiliadau ar waith drwy gydol y flwyddyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal archwiliadau clinigol amrywiol er mwyn nodi meysydd i'w gwella.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth drafod â staff, dywedwyd wrthym fod staff clinigol wedi cymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion.

Dywedodd y practis wrthym fod cynlluniau ar waith a'i fod wedi cysylltu â Deoniaeth Cymru er mwyn hunanasesu gan ddefnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Adnodd hunanwerthuso yw hwn sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar y ffordd y mae'n gweithio ac yn galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn ystod o feysydd.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data ar waith. Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw o bob ffeil electronig yn rheolaidd ac roedd mynediad i sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gudd bob amser.

### Cadw cofnodion

Cafodd sampl o gofnodion cleifion pob deintydd ei hadolygu. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol da yn gyffredinol, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion. Fodd bynnag, gwelsom rai bylchau yng nghofnodion cleifion unigol, fel hanes meddygol a chymdeithasol, cyngor ar roi'r gorau i smygu a ph'un a eglurwyd prosesau sgrinio canser iddynt. Yn ogystal, gwnaethom drafod â'r practis y ffaith nad oedd digon o dystiolaeth o'r cyfiawnhad dros driniaethau pelydr-x a gynhaliwyd yn rheolaidd ar sail ffactorau risg, nac o amlder a chanfyddiadau clinigol y triniaethau hynny.

O ystyried yr amrywiadau a welwyd yng nghofnodion cleifion, byddai'n ddoeth i'r practis archwilio cofnodion cleifion yn rheolaidd fel rhan o'i broses adolygu gan gymheiriaid a sicrhau bod cyfiawnhad dros bob triniaeth pelydr-x a bod amlder y triniaethau hynny'n cael ei gofnodi ynghyd â'r canfyddiadau clinigol.

Gwnaethom hefyd archwilio sampl o gofnodion cleifion yr hylenydd. Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod cofnodion ardderchog yn cael eu cadw. Fodd bynnag,

gwnaethom gynghori'r hylenydd i ystyried datblygu templed pwrpasol ar gyfer cleifion mynediad uniongyrchol[4].

### Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid sy'n adolygu'r cyfiawnhad dros gynnal triniaethau pelydr-x, amlder y triniaethau hynny a'r canfyddiadau clinigol a gofnodir.

[4] https://www.gdc-uk.org/professionals/standards/direct-access

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis hwn yn cael ei redeg yn dda a bod ganddo ymrwymiad cryf i fanylder a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol â'r prif ddeintydd ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod perthynas dda iawn rhyngddynt.

### Staff ac adnoddau

#### Y Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff a oedd wedi'u cwblhau ac roedd y rhain yn drefnus. Gallai'r holl staff gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau ei fod yn nodi dyddiad adolygu ar bob polisi a gweithdrefn a/neu'n dilyn proses rheoli fersiynau. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cynnwys llofnod staff er mwyn dangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Gwelsom fod amrywiaeth eang o hyfforddiant ar gael i'r staff, sy'n bodloni'r gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Gwelsom dystiolaeth hefyd o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o staff a oedd yn gweithio yn y practis.

Gwelsom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt mewn argyfwng ac amseroedd agor y practis wrth fynedfa'r safle. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion i'w gweld yn glir hefyd.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Springfield Dental

## Dyddiad arolygu:19 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio o ran diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Teitl swydd:

## Dyddiad:

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Springfield Dental

## Dyddiad arolygu:19 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dd/G | | | | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Adolygu ffeil COSHH ac asesiadau risg cysylltiedig. | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Dechreuodd y gwaith diweddaru yn syth ar ôl ymweliad AGIC. Caiff ei gwblhau a chynhelir adolygiad erbyn cyfarfod y tîm yng nghanol mis Medi | Rachel Griffiths | Cwblhau erbyn 14.09.18 |
| Cynnal archwiliad rheoli heintiau llawn gan ddefnyddio adnodd archwilio WHTM 01-05. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi | Cafodd archwiliad rheoli heintiau llawn ei gwblhau ar unwaith o fewn wythnos i'r arolygiad | Stuart Randell a Karen Quail | Wedi cwblhau adnodd archwilio WHTM 01-05 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu a diweddaru'r polisi dadebru. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau | Cafodd ei adolygu yn ystod yr ôl-drafodaeth a'r cyfarfod staff cyntaf ar ôl yr arolygiad | Rachel Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| Dylai'r practis adolygu a gwella ei ddealltwriaeth o'r prosesau i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau. | | Cafodd ei adolygu yn ystod yr ôl-drafodaeth a'r cyfarfod staff cyntaf ar ôl yr arolygiad | Stuart Randell a Karen Quail | Wedi'i gwblhau |
| Sicrhau bod y lloriau ym mhob deintyddfa wedi'u selio ar yr ymylon. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Selio ymylon y lloriau â silicon clir | Stuart Randell | Cwblhau erbyn canol mis Medi |
| Sicrhau bod pob nyrs ddeintyddol yn cwblhau hyfforddiant IR(ME)R yn unol â'i gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus. | | Trefnu hyfforddiant ar gyfer aelodau o staff sydd heb ei gael | Rachel Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| Diweddaru a threfnu'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd. | | Newid i ffeil diogelu rhag ymbelydredd ar-lein gyda Public Health England a chwblhau unrhyw waith sy'n weddill | Stuart Randell | Wedi'i gwblhau |
| Cynnal archwiliadau clinigol amrywiol er mwyn nodi meysydd i'w gwella. | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol | Trefnu cyfarfod i drafod Adnodd Sicrhau Ansawdd y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Ar ôl cwblhau hyn, mae SR a KQ wedi trefnu bod un o hwyluswyr y Matrics Aeddfedrwydd ar | Stuart a Karen | Parhaus – adroddiad interim i'w rannu ag aelodau'r tîm |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gyfer Deintyddiaeth yn ymweld â'r practis i hwyluso archwiliadau clinigol amrywiol. Nodi archwiliadau mewnol yn ystod y cyfarfod staff nesaf a phenderfynu ar rolau staff | | yn ystod y cyfarfod yng nghanol mis Medi |
| Cynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid sy'n adolygu'r cyfiawnhad dros gynnal triniaethau pelydr-x, amlder y triniaethau hynny a'r canfyddiadau clinigol a gofnodir. | 3.5 Cadw cofnodion | Adolygu a chasglu data ar unwaith er mwyn gweld yr hyn a gynigir ar hyn o bryd yn dilyn arolygiad AGIC. (Wedi'i gwblhau). Adolygu ar ôl 12 wythnos | Stuart Randell a Karen Quail | Adolygu erbyn 23/11/18 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dd/G | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Stuart Randell**

**Teitl swydd: Deintydd**

**Dyddiad: 21.08.18**